# SL(5)702 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau'r Deyrnas Unedig gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020. Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn rhedeg am ddeg "blwyddyn cynllun" gan ddechrau yn 2021, wedi'u rhannu'n ddau "gyfnod dyrannu", sef cyfnod dyrannu 2021-2025 a chyfnod dyrannu 2026-2030. Mae'n ofynnol i rai gweithredwyr safleoedd diwydiannol a rhai gweithredwyr awyrennau fonitro "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob blwyddyn cynllun, ac adrodd ar y rhain a'u hildio.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau y DU a deddfwriaeth arall, i raddau helaeth i ddarparu ar gyfer cofrestrfa ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU ac ar gyfer dyrannu lwfansau am ddim. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio yn cynnwys Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 (y "Rheoliad Dyrannu Am Ddim") a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 (y "Rheoliad Newidiadau Lefel Gweithgaredd"). Mae'r ddau Reoliad yn gyfraith yr UE a ddargedwir, a wnaed yn wreiddiol ar gyfer System Masnachu Allyriadau'r UE, ond a addaswyd ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU.

Mae erthygl newydd 8A o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yn diffinio pum corff fel "gweinyddwr y gofrestrfa", gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn ymarferol, y bwriad yw i Asiantaeth yr Amgylchedd arfer swyddogaethau gweinyddwr y gofrestrfa ar ran y pedwar corff arall.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2 (ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Rhan 1, Adran 2 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru (ar dudalen 2) yn nodi fel a ganlyn:

> *"Gan y bydd Senedd y DU yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei greu na'i osod yn ddwyieithog."*

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 17 Rhagfyr 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Gwnaed y Gorchymyn ar 16 Rhagfyr 2020, dyddiad cyfarfod cyntaf y Cyfrin Gyngor ar ôl y cyfarfod lle gwnaed y prif Orchymyn, a chafodd ei osod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny. Ystyrir bod dyddiad dod i rym hwyrach yn amhosibl am ddau reswm. Yn gyntaf, er mwyn sicrhau na fydd oedi yn y rhwymedigaethau ar weithredwyr safleoedd sy'n ymwneud â monitro data at ddibenion dyrannu am ddim. Mae hyn yn osgoi ansicrwydd i gyfranogwyr ac yn sicrhau proses bontio ddidrafferth o System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd i ETS y DU. Yn ail, mae angen dadwneud dirymiad arfaethedig o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 ("y Rheoliad Dyrannu am Ddim") drwy reoliad 62 o Reoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019, sy'n dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Gwnaed yr offeryn fel rhan o baratoadau "ymadael heb gytundeb" blaenorol Llywodraeth y DU yng ngwanwyn 2019."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.